
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|----------------------------|--|
| Enw / Name: | Meilyr Rowlands |
| Rôl / Role: | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| E-bost / Email: | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| Rhif Ffôn / Tel No: | 029 2044 6446 |
| <hr/> | |
| Dyddiad / Date: | 14.09.20 |
| Pwnc / Subject: | Llawlyfr QAA ar gyfer yr Adolygiad o Brentisiaethau Gradd |

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

At ei gilydd, mae Estyn yn cefnogi'r dull ar gyfer yr adolygiad datblygiadol. Rydym wedi ymgysylltu â QAA i rannu ein profiadau o arolygu darparwyr dysgu yn y gwaith (DYYG) sy'n cynnig prentisiaethau uwch, ac mae'r llawlyfr yn adlewyrchu rhai o'r arferion y canfuom eu bod yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd darpariaeth lefel uwch. Rydym yn fodlon cynnig cyngor a chymorth parhaus wrth i QAA symud i gyfnod gwaith maes yr adolygiad.

Rydym yn cytuno â'r dull llwybrau rhaglenni, gan y gallai'r rhain nodi agweddau y mae angen eu hadolygu drwy graffu'n fanylach. Mae ein profiad yn dangos bod hyblygrwydd yn bwysig ar gyfer adolygiadau dysgu yn y gwaith, felly efallai y bydd angen newid llwybrau yn ystod yr adolygiad gan ddibynnu ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir drwy weithgareddau gwaith maes.

Mae'r adolygiad yn ystyried yn briodol drefniadau ar gyfer cyflwyno a chefnogi prentisiaid drwy gyfrwng y Gymraeg, a gallu'r darparwr arweiniol a phartneriaid i fodloni anghenion Cymraeg cyflogwyr a phrentisiaid. O'n profiad o sicrhau ansawdd prentisiaethau uwch ar ein harolygiadau a'n hadolygiadau thematig, byddai'n bwysig bod gan QAA adolygwyr tîm sy'n gallu siarad Cymraeg â dysgwyr a chyflogwyr, lle bo hynny'n briodol, ac adolygu cyflwyniad a chefnogaeth y darparwr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 1: Gwybodaeth amdanoch chi

- Mark Evans
- Eich rôl: AEM
- Eich sefydliad/mudiad: Estyn
- Ydych chi'n ymateb:
 - - ar ran eich darparydd
 -
 - - fel cyflogwr
 - - ar ran coleg sy'n bartner i chi
 - - ar ran corff cynrychioli myfyrwyr
 - - arall (*rhowch fanylion*)

Cwestiwn 2: A ydych chi'n credu y gall y dull arfaethedig gyflawni ei bwrpas fel adolygiad datblygiadol a chynorthwyo dysgu a datblygu darparwyr wrth iddynt gyflwyno Prentisiaethau Gradd?

Ydyn

Ac yntau'n adolygiad datblygiadol, rydym yn cytuno bod gan y dull hwn gyfle i gael ystod o wybodaeth a thystiolaeth ynghylch agweddau allweddol ar y rhaglen Prentisiaethau Gradd. Erbyn hyn, mae'r darparwyr sy'n cyflwyno'r rhaglen beilot wedi cael amser digonol i ddatblygu, cyflwyno ac adolygu effeithiolrwydd eu rhaglenni. Mae nawr yn amser priodol yn natblygiad rhaglen i gynnal y cyfryw adolygiad. Bydd y dull arfaethedig yn rhoi cyfle i sicrhau trosolwg o brofiadau dysgwyr, darparwyr a chyflogwyr o brentisiaethau gradd yng Nghymru. Datblygwyd y dull i gyd-fynd â model adolygu sefydledig QAA, ond hefyd i ystyried anghenion penodol rhaglenni dysgu yn y gwaith. Dylai ategu gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r cynllun prentisiaethau gradd peilot hefyd.

Cwestiwn 3: A yw'r llawlyfr drafft yn darparu digon o wybodaeth i baratoi a chynnal yr adolygiadau?

Ydy

Mae'r ddogfennaeth yn rhoi manylion digonol i brif gyfranogwyr a fydd yn rhan o'r gweithgareddau.

A oes unrhyw feysydd sydd angen gwybodaeth/eglurhad pellach?

Nac oes

Cwestiwn 4: O ystyried yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen adolygu yn gyffredinol, a yw'r rhaglen adolygu ar gyfer adolygiad unigol (Atodlen B: Llinell amser ar gyfer adolygiad darparydd) yn rhesymol?

Ydy

Datblygwyd yr amserlenni ar gyfer y gweithgaredd gan ddefnyddio cyfnodau sefydledig tebyg i adolygiadau eraill o addysg uwch, ac maent yn cynnwys amser teg i ddarparwyr ddosbarthu holiaduron i gyflogwyr a myfyrwyr. Mae'r amserlenni hyn yn ymddangos yn rhesymol i ddarparwyr.

A oes unrhyw argymhellion ar gyfer addasiadau o ran amseriad a threfn y gweithgareddau?

Nac oes

Datblygwyd yr amseriadau gan ddefnyddio profiad QAA a'i allu i gyflawni'r adolygiad, yn ogystal â rhoi digon o gyfle i werthuso'r dystiolaeth a ddarperir.

Cwestiwn 5: A yw'r dull arfaethedig o ddefnyddio llwybrau rhaglenni yn briodol?

Ydy

Mae llwybrau rhaglenni'n cynnig cyfle i nodi rhaglenni neu agweddau ar raglenni y mae angen eu hadolygu drwy graffu arnynt yn fanylach. Wrth benderfynu ar ba lwybrau i'w dilyn, mae'r broses yn dibynnu'n drwm ar wybodaeth a roddir gan y darparwr. Pe byddai'r darparwr yn cyflenwi dogfennau hunanwerthuso manwl a chadarn, byddai hyn yn ffurfio man cychwyn defnyddiol. Bydd data cadarn a chywir yn fuddiol hefyd.

A oes unrhyw addasiadau a fyddai'n sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol?

Oes

Mae ein profiad yn dangos bod hyblygrwydd yn hollbwysig wrth ymgymryd ag arolygiadau dysgu yn y gwaith. O ganlyniad, efallai y bydd angen newid llwybrau rhaglenni yn ystod yr adolygiad, gan ddibynnu ar ba wybodaeth a thystiolaeth a geir fel rhan o'r gweithgareddau gwaith maes.

Cwestiwn 6: A oes unrhyw faterion pellach i'w hystyried os oes angen cynnal rhan o'r adolygiad, neu'r holl adolygiad, yn rhithwir?

Oes

Yn naturiol, mae nifer o weithgareddau adolygu yn addas i'w cynnal o bell, yn hytrach na thrwy weithgareddau wyneb-yn-wyneb. Gallai enghreifftiau gynnwys unrhyw gyfarfod cynllunio adolygiad â'r darparwr, cyfarfodydd un-i-un neu mewn grwpiau bach â dysgwyr a staff, fel darlithwyr a thiworiaid. Gallai hyn fod yn arbennig o effeithiol pan mae'r darparwr neu ei ddysgwyr wedi'u gwasgaru ar draws nifer o safleoedd, neu pan mae eu cyflogwyr wedi'u gwasgaru ar draws ardal ddaearyddol eang.

Fodd bynnag, agwedd bwysig ar unrhyw raglen dysgu yn y gwaith ar unrhyw lefel yw gallu dysgwyr i ddangos ystod o fedrau ymarferol neu broffesiynol y maent wedi'u datblygu yn y gweithle, neu mewn amgylchedd gwaith wedi'i efelychu, ambell waith. Yn yr achosion hyn, mae'n bosibl nad arsylwi o bell yw'r dull mwyaf effeithiol o adolygu safonau. Mae hyn oherwydd efallai na fydd yn rhoi cyfle i arsylwi ac adolygu pob agwedd ar y dasg y mae'r dysgwr yn ymgymryd â hi, a gallai'r arsylwad fod yn ffug neu'n annaturiol. Yn yr enghreifftiau gorau, fel y nodir mewn llawer o'n hadroddiadau arolygu, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddangos eu medrau ymarfer a'u gwybodaeth yn eu gweithleoedd. O ganlyniad, mae'r sawl sy'n arsylwi'n cael cyfle i weld nid yn unig safon y tasgau yr ymgwymerir â nhw, ond hefyd y ffordd mae'r dysgwr yn rhyngweithio â rheolwyr, cydweithwyr a chymheiriaid. Wrth ystyried arsylwi o bell, mae angen ystyried diogelwch a chyfrinachedd data gan gyflogwyr, eu staff, cleientiaid a chwsmeriaid hefyd. Mae nifer o gyflogwyr yn gweithredu mewn amgylcheddau sydd ag agwedd ar ddiogelwch, ac mae eraill yn gweithio â chwsmeriaid a chleientiaid a all wrthwynebu cael eu harsylwi o bell.

Cwestiwn 7: A yw deilliannau'r adolygiad (argymhellion ac arfer da) wedi'u diffinio'n briodol?

Ydyn

Gan fod hwn yn adolygiad datblygiadol, mae'r argymhellion a'r nodweddion sy'n cynrychioli arfer arloesol a diddorol sy'n werth ei rhannu wedi'u diffinio'n glir.

Rydym yn awgrymu y gallai fod o gymorth defnyddio'r term 'arfer/mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg' i ddisgrifio arfer sy'n werth ei rhannu yn ystod y cyfnod hwn o'r rhaglen beilot.

A fydd y broses ar gyfer adrodd yn ôl yn galluogi rhannu arfer yn effeithiol?

Bydd strwythur y ddogfen a'r broses adolygu yn ei gwneud yn bosibl nodi arfer a all fod yn ddiddorol. Dylai'r adroddiad trosolwg, wedi'i seilio ar ganfyddiadau ar draws pob un o adolygiadau'r darparwyr, hybu rhannu arfer ddiddorol ac arloesol yn y sector.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r broses adolygu arfaethedig, er enghraifft o ran cydraddoldeb ac amrywioldeb neu'r Gymraeg?

Oes

Sut gallai QAA fynd ati i liniaru'r deilliannau hyn?

Cydraddoldeb ac amrywiaeth:

Yn yr un modd â dysgwyr eraill dysgu yn y gwaith, caiff prentisiaid gradd eu recriwtio gan eu cyflogwyr. O ganlyniad, mae cyflogwyr yn dilyn eu strategaeth recriwtio a chyflogaeth eu hunain. Mae data cynnar gan gyfranogwyr yn dangos y byddai'n bwysig bod â'r nod o gynyddu amrywiaeth ar draws rhaglenni. Mae angen i ddarparwyr addysg a hyfforddiant gydweithio'n agos â chyflogwyr, darpar ddysgwyr a rhieni i hyrwyddo dewisiadau prentisiaethau gradd yn eang. Mae'r adolygiad yn gyfle i ystyried pa mor dda y cydnabuwyd hyn a pha mor llwyddiannus y bu darparwyr addysg a hyfforddiant o ran sicrhau carfan amrywiol o ddysgwyr.

Yr iaith Gymraeg

Wrth ymgymryd â gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith, dylai dysgwyr gael eu hannog a'u cefnogi i fodloni eu hanghenion ieithyddol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ein tystiolaeth arolygu'n dangos bod darparwyr hyfforddiant yn ceisio defnyddio eu hadnoddau a gallu staff i baru dysgu â staff cymaint ag y gallant er mwyn bodloni anghenion Cymraeg dysgwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn her o hyd. Mae llawlyfr yr adolygiad wedi cydnabod hyn wrth drafod darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a byddai'n bwysig bod gan QAA adolygwyr sy'n medru'r Gymraeg wrth siarad â dysgwyr a chyflogwr, ac wrth adolygu cyflwyniad a chefnogaeth y darparwr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 9: A oes gennych chi ragor o sylwadau am y dull o weithredu y bwriedir ei ddefnyddio?

Byddai Estyn yn fodlon parhau i gynnig ein cymorth i broses adolygu QAA o'n profiad o sicrhau ansawdd prentisiaethau uwch yng Nghymru drwy ein harolygiadau a'n hadolygiadau thematig.